

PWYLLGOR CRAFFU DYSGU A DIWYLLIANT

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf, 2023.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd R.R. Thomas (Cadeirydd); Cynghorydd H.M. Payne (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr A. Asbrey; W. Gilligan; E.J. Goodjohn; W.A. Hennessy; N.P. Hodges; J. Lynch-Wilson; J.M. Norman ac E. Penn.

Aelodau cyfetholedig: L. Barrowclough (Rhiant-lywodraethwr – Sector Cynradd); R. Morteo (Yr Eglwys yng Nghymru), G. Van der Burgt (Rhiant-lywodraethwr – Sector Uwchradd); ac R. Goodjohn (Fforwm Ieuenctid y Fro).

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr R.M. Birch (Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg), L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet Berfformiad ac Adnoddau) a E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd).

202 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrdd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

203 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr R. Godfrey a N. Marshallsea a Dr. M. Price (Yr Eglwys Gatholig) a A. Emerson (Fforwm Ieuenctid y Fro).

204 DATGANIADAU BUDDIANT –

Datganodd y Cynghorydd W.A. Hennessy fuddiant personol yn Eitemau 5 a 6 ar yr Agenda a Chau Cyfrifon a Chau Cyfrifon Cyfalaf, gan y byddai cyfrifon y Cyngor yn cael eu trafod a chan ei fod yn denant i Gyngor Bro Morgannwg. Gan fod hwn yn fuddiant personol ac nid oedd yn rhagfarnu, ni adawodd y cyfarfod.

205 CWRICWLWM I GYMRU: TAITH I 2022 - DIWEDDARIAD TYMOR YR HAF 2023 –

Prif Bartner Gwella Consortiwm Canolbarth y De, Arweinydd Ardal ar gyfer y Dyniaethau ac Ymgynghorydd Cyswllt Addysg Grefyddol ynghyd â'r Arweinydd

Dysgu ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn Ysgol Uwchradd Whitmore oedd yn arwain y cyflwyniad. Rhoddodd y cyflwyniad wybodaeth i'r Pwyllgor am waith y Consortiwm i gefnogi addysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) mewn ysgolion ac roedd yn cynnwys mewnbwn gan Arweinydd y Dyniaethau yn Ysgol Gynradd Y Bont Faen.

Yn dilyn y cyflwyniad, mewn ymateb i ymholiad gan yr Is-gadeirydd, dywedodd yr Arweinydd Ardal ar gyfer Dyniaethau, oherwydd bod ysgolion yn dryloyw wrth gyfathrebu newidiadau i'r cwricwlwm ynghylch crefydd, gwerthoedd a moeseg a'r rhesymau y tu ôl i newidiadau o'r fath, roedd adborth gan rieni wedi bod yn gadarnhaol. Wedi hynny, canmolodd yr Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg, gyda chaniatâd i siarad, ddatblygiad y cwricwlwm a'r ffordd yr oedd yn annog sgiliau holi a meddwl beirniadol ymhlith disgyblion.

Mewn ymateb i ymholiad gan y Cynghorydd Norman, dywedodd yr Arweinydd Ardal ar gyfer y Dyniaethau wedi hynny nad oeddent wedi derbyn unrhyw adborth negyddol ynghylch ehangu'r cwricwlwm gan gynrychiolwyr crefyddau nad ydynt yn Gristnogol.

Mewn ymateb i ymholiad gan y Cynghorydd Penn, y Cynghorydd Cyswllt dros Addysg Grefyddol, dwedodd fod dysgwyr yn cael eu hannog i ymgysylltu'n feirniadol â'r pwnc a chwestiynu'r ffynonellau gwybodaeth yn hytrach nag athrawon yn cyflwyno gwybodaeth am ffydd a chredoau fel ffeithiau. Dywedodd y swyddog ymhellach fod athroniaethau anghrefyddol hefyd yn cael eu cynnwys yn y cwricwlwm newydd.

Mewn ymateb i sylw dilynol gan y Cynghorydd Penn, dywedodd yr Ymgynghorydd Cyswllt Addysg Grefyddol fod yn ofynnol yn gyfreithiol i gydaddoli mewn ysgolion fod yn Gristnogol yn gyffredinol o ran cymeriad ac felly'n wahanol i'r pwnc academaidd CGM.

Gofynnodd y Cynghorydd Goodjohn a'r Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg wedi hynny fod y Pwyllgor yn derbyn diweddariad ar sut y gwnaeth CGM yn y cwricwlwm newydd symud ymlaen ymhen 12 mis.

Heb unrhyw sylwadau nac ymholiadau pellach diolchodd y Pwyllgor i'r holl westeion a chyfranwyr i'r cyflwyniad ac wedi hynny

ARGYMHELLWYD – Y dylid diolch i'r Swyddogion a'r gwesteion a wahoddwyd am eu diweddariad trylwyr a deniadol, a nodi'r cyflwyniad.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys y cyflwyniad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

DS Ers cyhoeddi'r Hysbysiad o Benderfyniad hwn, daethpwyd i sylw'r Gwasanaethau Democrataidd y dylai'r argymhelliad uchod hefyd fod wedi cynnwys diweddariad pellach mewn perthynas â chynnydd y cwricwlwm Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg newydd ymhen 12 mis.

206 ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL SAFONAU IAITH CYMRU 2022-23 (CYF) –

Cafodd y cyfeiriad gan y Cabinet ar 6 Gorffennaf, 2023 ei gyflwyno gan y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol.

Yn dilyn cyflwyniad y Cyfarwyddwr, fe ddywedodd mewn ymateb i ymholiadau'r Is-Gadeirydd y byddai rhagor o fanylion yn cael eu darparu i'r Is-Gadeirydd ynghylch amseroedd ymateb y Ganolfan Gyswilt yn y Gymraeg o'i gymharu â'r Saesneg, lefelau cyfranogiad mewn hyfforddiant Cymraeg Gwaith ymhlith staff y Cyngor, dadansoddiad o ffigurau dysgwyr Cymraeg gan y rhai a oedd yn drigolion Bro Morgannwg a'r rhai a oedd yn staff y Cyngor a gwybodaeth bellach am y safonau efydd, arian ac aur o ran darpariaeth Gymraeg.

Heb unrhyw sylwadau nac ymholiadau pellach, y Pwyllgor wedyn

ARGYMHELLWYD – Cymeradwyo'r adroddiad a'r Atodiadau.

Rheswm dros yr argymhelliad

Caniatáu i'r Cyngor gyflawni ei ddyletswydd adrodd i Gomisiynydd y Gymraeg fel rhan o Safonau'r Gymraeg.

207 CAU CYFRIFON 2022/23 (CDS) –

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Gweithredol dros Gyfrifeg.

Diben yr adroddiad oedd rhoi gwybod i'r Cabinet am sefyllfa ariannol dros dro'r Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23.

Bu pwysau refeniw sylweddol ar y Cyngor yn 2022/23, roedd pwysau penodol yn ymwneud ag effaith barhaus y pandemig Covid-19, pwysau chwyddiant yn enwedig o ran contractau a phwysau cyflog. Bu pwysau galw sylweddol hefyd i gefnogi meysydd Digartrefedd, Gwasanaethau Plant a disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Cymerwyd camau i fynd i'r afael â'r diffyg gallu i gomisiynu gofal yn y Gwasanaethau Cymdeithasol gyda chodiad ffioedd ychwanegol a ddyfarnwyd yn chwarter olaf y flwyddyn ariannol, roedd effaith hyn ochr yn ochr â mentrau eraill wedi gweld gostyngiad yn y rhestr aros am ofal.

Manteisiodd y Cyngor ar addasiad untro yn y modd y cafodd incwm gofal cymdeithasol ei adlewyrchu yn y cyfrifon a alluogodd drosglwyddiad cronfeydd wrth gefn o £2m. Derbyniodd y Cyngor incwm buddsoddi ychwanegol hefyd o ganlyniad i fuddsoddi ei falansau arian parod yn ystod y flwyddyn oherwydd y gyfradd banc gynyddol a pharhaodd i elwa o ddefnyddio balansau wrth gefn i ariannu benthyca yng nghyd-destun cyfraddau llog cynyddol cyfredol, gan leihau costau benthyca i'r Cyngor.

Parhaodd y Cyngor i gyflawni nifer o gynlluniau yn ystod 2022/23 fel y cynllun Disgresiynol Costau, Lwfansau Tanwydd y Gaeaf a Chynllun Adsefydlu Wcrainiad.

Roedd sefyllfa refeniw diwedd blwyddyn yn un adennill costau ar ôl trosglwyddo £17.029m o Gronfa'r Cyngor, gan gynnwys £987k wedi'u trosglwyddo o Gronfa'r Cyngor, £953k o'r Cyfrif Refeniw Tai, £11.785m a drosglwyddwyd i gronfeydd wrth gefn penodol o refeniw a £15.554m a drosglwyddwyd o gronfeydd wrth gefn penodol i ddarparu cyllid untro ar gyfer prosiectau, a £12.307m o gronfeydd wrth gefn i ariannu'r Rhaglen Gyfalaf ac ar gyfer dadleoli a oedd yn ofynnol gan grantiau cyfalaf. £11.523 oedd gan Gronfa'r Cyngor ar 31 Mawrth 2023.

Roedd targed arbedion refeniw o £500k wedi'i osod ar gyfer 2022/23 a chafodd balans yn weddill ar gyfer 2021/22 sef £170k hefyd ei fonitro drwy gydol y flwyddyn. Er bod rhai arbedion wedi'u nodi trwy danwariant yn ystod y flwyddyn fel swyddi gwag, roedd gwasanaethau wedi symud i nodi'r rhain ar sail fwy cynaliadwy ar gyfer 2023/24.

Cyfarwyddiaeth	Cyllideb Ddiwygiedig 2022/23 £000au	Alldro 2022/23 £000au	Trosglwyd diad i/(o) gronfeydd £000au	Amrywiad Ffafriol / (Andwyol) £000au
Dysgu a Sgiliau	122,578	129,175	-6,548	-49
Gwasanaethau Cymdeithasol	80,742	78,091	1,511	1,140
Yr Amgylchedd a Thai	31,674	31,376	1,185	-887
Adnoddau Corfforaethol	2,208	5,920	-2,263	-1,449
Lle	4,088	4,323	-195	-40
Polisi	33,764	28,364	1,638	3,762
Defnyddio Cronfeydd Wrth Gefn	-996	0	-987	-9
Gwarged Treth Gyngor	-1,500	-922	0	-578
Amrywiad ffafriol a drosglwyddwyd i gronfeydd wrth gefn	0	0	1,890	-1,890
Cyfanswm	272,558	276,327	-3,769	0

Ar ôl ystyried symudiadau'r Gyfarwyddiaeth i ac o gronfeydd wrth gefn, dangosodd yr alldro refeniw warged o £1,890k y cynigiwyd ei drosglwyddo i gronfeydd wrth gefn i'w ddefnyddio fel a ganlyn:

- Trosglwyddo £200k i Gronfa Wrth Gefn Pwysau a Gwelliannau Addysg i ddarparu cymorth ychwanegol i ysgolion mewn mesurau arbennig.
- £850k i Gronfa Wrth Gefn Pwysau a Gwelliannau Addysg i gefnogi cymorth ADY mewn ysgolion priif ffrwd.
- £20k i Gronfa Wrth Gefn Gwasanaethau Cymdogaeth ar gyfer gwaith atgyweirio ar gyfleusterau chwaraeon untro.
- £350k i Gronfa Wrth Gefn Gwasanaethau Cymdogaeth ar gyfer cynlluniau asffalt micro i fynd i'r afael â chyflwr ffyrdd o fewn ardal y Cyngor.

- £150k i Gronfa wrth Gefn Gwasanaethau Cymdogaeth i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwaith iechyd a diogelwch mewn canolfannau hamdden.
- £200k i Gronfa Wrth Gefn Ail-lunio Risg a Buddsoddi i ddarparu cymorth ychwanegol i Blant a Phobl Ifanc dros gyfnod yr haf.
- £120k i Gronfa Wrth Gefn Gwasanaethau Cymdogaeth i gefnogi gweithredu Cynllun A48 i wella Diogelwch ar y Ffyrdd.

Gwnaeth y Cyfrif Refeniw Tai ddefnyddio llai o'r gronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi o £953k nag a ragwelwyd, gan leihau lefel ei gronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi i £16.486m.

Gostyngodd lefel y Cronfeydd Wrth Gefn y gellir eu Defnyddio yn ystod y flwyddyn er gyda llai na'r hyn a ragwelwyd. Cynhaliodd y Cyngor ymarfer aiddyrannu wrth gefn yn ystod y flwyddyn ac adlewyrchwyd hyn yn y sefyllfa alldro.

ar	Balans ar 01/04/2022	Cyllid Cyfalaf	Trosglwy ddo Cynllunie dig (o) gronfeyd d wrth gefn	Trosglwy ddo arfaethed ig i gronfeyd d wrth gefn	Ail- ddyrrannu cronfeydd wrth gefn	Amcangyfri f o'r Balans 31/03/2023
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cronfa Gyffredinol	12,510	-	987	-	-	11,523
Yswiriant	4,529	-	-	348	-	4,877
Cronfeydd wrth gefn Gwasanaethau	30,824	886	4,610	5,052	7,859	22,521
Cronfeydd Risg a Llyfnhau	21,345	1,594	3,358	4,047	9,362	29,802
Cyfalaf	27,426	9,828	77	1,708	1,503	17,726
Ysgolion	13,145	-	6,522	630	-	7,254
Cyfrif Refeniw Tai	17,439	953	-	-	-	16,486
Cyfanswm	127,218	-13,260	-15,554	11,785	0	110,189

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, mewn ymateb i ymholiad gan y Cadeirydd, dywedodd y Rheolwr Gweithredol dros Gyfrifeg y gellid cael ffigurau cyfredol ac amcanestyniadau ar gyfer plant sydd wedi'u lleoli y tu allan i sir Bro Morgannwg a'u hadrodd yn ôl i'r Cadeirydd.

Heb unrhyw sylwadau nac ymholiadau pellach, y Pwyllgor wedyn

ARGYMHELLWYD –

- (1) NODI'r adroddiad a'r mesurau ariannol a gymerwyd ac a gynigir ynddo.
- (2) NODI dyraniad gwarged cyffredinol y Cyngor.

Rhesymau dros yr argymhellion

- (1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad ar yr alldro a'r mesurau ariannol a gymerwyd.
- (2) Rhoi gwybod i'r Pwyllgor am ddyrannu gwarged 2022/23 i gefnogi'r gwaith o gyflawni cynlluniau sy'n cefnogi blaenoriaethau allweddol a nodwyd gan y Cyngor.

208 CAU CYFRIFON CYFALAF 2022/23 (CDS) –

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Gweithredol dros Gyfrifeg.

Diben yr adroddiad oedd rhoi gwybod i'r Pwyllgor am sefyllfa ariannol dros dro Rhaglen Gyfalaf y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23.

Rhoddodd yr adroddiad fanylion ar gau'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill, 2022 i 31 Mawrth 2023. Dangoswyd manylion yn ôl y cynllun, a oedd yn berthnasol i'r Pwyllgor yn Atodiad 1 i'r adroddiad a chynhwysir tabl cryno isod:

Cyfarwyddiaeth	Rhaglen Gymeradwy 2022/23 £000	Rhaglen Gymeradwy Ychwanegiadau 2022/23 £000	Rhaglen Gymeradwy wedi'i haddasu 2022/23 £000	Gwariant Gwirioneddol 2022/23 £000	Amrywiad yn Alldro 2022/23 £000
Dysgu a Sgiliau	30,969	1,190	32,159	34,026	(1,867)
Gwasanaethau Cymdeithasol	1,082	16	1,098	767	331
Tai	21,320	0	21,320	22,369	(1,049)
Yr Amgylchedd	21,204	121	21,325	17,696	3,629
Lle	4,023	121	4,144	3,738	406
Adnoddau Corfforaethol	1,851	571	2,422	2,195	227
Cyfanswm	80,449	2,019	82,468	80,791	1,677

Rhoddodd Atodiad 2 grynodedb o sefyllfa'r Rhaglen Gyfalaf fesul Cyfarwyddiaeth o gymeradwyaeth yn y Cyngor ar 7 Mawrth, 2022 i 31 Mawrth, 2023, gan gynnwys unrhyw newidiadau y gofynnwyd amdanynt o fewn yr adroddiad.

Roedd angen ychwanegu nifer o gynlluniau gwerth cyfanswm £2.019m yn hwyr yn y Rhaglen a nododd yr adroddiad y Rhaglen wedi'i haddasu gyfredol o £82.468m a gwariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn o £80.791m.

Er gwaethaf cynlluniau cyfalaf yn wynebu heriau parhaus oherwydd nifer o faterion, gan gynnwys cynnydd sylweddol mewn costau a phrinder adnoddau, braf oedd nodi bod Rhaglen Gyfalaf 2022/23 wedi gwneud alldro ar £80.791m a bod 98% o'r rhaglen wedi'i wario cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Oherwydd yr ymroddiad, yr ymrwymiad a'r gwaith caled ar draws yr holl Gyfarwyddiaethau, nododd yr adroddiad y Rhaglen wedi'i haddasu gyfredol o £82.468m a llithriad net o £715k a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth gan Bwerau Brys i Raglen Gyfalaf 2023/24. Mae tabl cryno sy'n manylu ar llithriad yn cael ei ddarparu isod:

Cyfarwyddiaeth	Rhaglen Gymeradw y wedi'i haddasu	Diwygiedig Alldro	Amrywiad	Llithriad Net y gofynnwyd amdano	Cyllideb Addasiadau/ Llithriad Net nas gofynnwyd amdano
	2022/23	2022/23	2022/23	2022/23	2022/23
	£000	£000	£000	£000	£000
Dysgu a Sgiliau	32,159	34,026	(1,867)	2,146	(279)
Gwasanaethau Cymdeithasol	1,098	767	331	(329)	(2)
Tai	21,320	22,369	(1,049)	1,280	(231)
Yr Amgylchedd	21,325	17,696	3,629	(3,206)	(423)
Lle	4,144	3,738	406	(364)	(42)
Adnoddau Corfforaethol	2,422	2,195	227	(242)	15
Y Fargen Ddinesig	0	0	0	0	0
Cyfanswm	82,468	80,791	1,677	(715)	(962)

I'r Pwyllgor hwn, roedd y sefyllfa ynghylch y gyllideb yn amrywiad o -£1.867m yn erbyn Rhaglen wedi'i haddasu o £32.124m. Cofnodwyd mai £33.991m oedd yr alldro ar gyfer y Pwyllgor Craffu hwn a gofynnwyd am lithriad o -£2.146m.

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, mewn ymateb i ymholiad gan yr Is-gadeirydd, dywedodd y Rheolwr Gweithredol dros Gyfrifeg fod diogelu a diogelwch ffiniau allanol ysgolion yn cyfeirio at sawl ysgol, y byddai rhestr ohonynt yn cael ei darparu i'r Is-gadeirydd.

Heb unrhyw sylwadau nac ymholiadau pellach, y Pwyllgor wedyn

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI'r sefyllfa gyfalaf diwedd blwyddyn ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23.

- (2) NODI'r cyllidebau cynllun ychwanegol, fel y'u nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad.
- (3) NODI'r sefyllfa gryno o'r newidiadau yn y Rhaglen Gyfalaf fesul cyfarwyddiaeth o'u cymeradwyo gan y Cyngor ar 7 Mawrth 2022 i 31 Mawrth 2023, fel y nodir yn Atodiad 2 yr adroddiad.
- (4) NODI'r Pwerau Argyfwng a gymeradwywyd mewn perthynas â'r llithriad, fel y nodir yn Atodiad 3 i'r adroddiad.

Rhesymau dros yr argymhellion

- (1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad ar y sefyllfa gyfalaf diwedd blwyddyn am y flwyddyn ariannol 2022/23.
- (2) Hysbysu'r Pwyllgor am y cynlluniau ychwanegol a ychwanegwyd at y Rhaglen Gymeradwy ar gyfer 2022/23.
- (3) Hysbysu'r Pwyllgor am y newidiadau i'r Rhaglen Gyfalaf Gymeradwy a osodwyd ar 7 Mawrth 2022.
- (4) Rhoi gwybod i'r Pwyllgor am y llithriad a gymeradwywyd yn y Pwerau Argyfwng yn Rhaglen Gyfalaf 2022/23.

209 ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 4 2022/23 (CDS) -

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Safonau a Darpariaeth.

Diben yr adroddiad oedd cyflwyno canlyniadau perfformiad Chwarter 4 (Ch4) ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023 wrth gyflawni ymrwymadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2022/2023 fel sy'n cyd-fynd ag Amcanion Lles y Cynllun Corfforaethol.

Cyflwynodd yr adroddiad perfformiad gynnydd yn Chwarter 4 (1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023) tuag at gyflawni ymrwymadau'r Cynllun Cyflawni Blynyddol (2022/23) fel sy'n cyd-fynd ag Amcanion Lles y Cynllun Corfforaethol.

Bwriad y cyflwyniad wedi'i atodi i'r adroddiad oedd rhoi trosolwg i'r Aelodau o berfformiad diwedd blwyddyn yn gynharach yn y flwyddyn galendr. Roedd hyn cyn Hunanasesiad manylach 2022/23. Byddai hyn yn cael ei adrodd i'r Cabinet a'r Cyngor Llawn cyn ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2023.

Priodolwyd statws perfformiad Gwyrdd i bob un o 4 Amcan Lles y Cynllun Corfforaethol yn Ch4 i adlewyrchu'r cynnydd da a wnaed hyd yma o ran cyflawni ymrwymadau'r Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer 2022/23.

Priodolwyd statws perfformiad Gwyrdd i 90% (343 allan o 380) o'r gweithgareddau a gynlluniwyd a nodwyd yn y Cynllun Cyflawni Blynyddol sy'n cyfleu'r cynnydd

cadarnhaol a wnaed yn ystod y chwarter. Priodolwyd statws Coch i 10% (37) o'r gweithgareddau a gynlluniwyd.

O'r 128 o fesurau perfformiad sy'n cyd-fynd ag Amcanion Lles Cynllun Corfforaethol y Cyngor, adroddwyd data ar gyfer 56 o fesurau lle roedd statws perfformiad yn berthnasol. Priodolwyd statws perfformiad Gwyrdd i 70% (39) ohonynt, statws Melyn i 7% (4) ohonynt, a statws Coch i 23% (13) ohonynt. Nid oedd statws perfformiad yn berthnasol ar gyfer 72 o fesurau gyda 50 o'r rhain yn ymwneud â'r mesurau oedd yn sefydlu perfformiad llinell sylfaen ar gyfer 2022/23, ac nid oedd diweddariad na data ar gyfer 22 o fesurau.

Mewn perthynas â'r gweithgareddau a gynlluniwyd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant, priodolwyd statws perfformiad Gwyrdd i 92% (66 allan o 72) a statws Coch i'r 8% olaf (7). O'r 8 mesur a adroddwyd, priodolwyd statws perfformiad Gwyrdd i 63% (5), a statws Coch i 37% (3).

Er mwyn hwyluso cyfeirio, tynnodd eithriadau perfformiad yn cyd-fynd â chylch gwaith y Pwyllgor Craffu sylw at statws presennol y camau perfformio Coch a nodwyd yn y chwarterau blaenorol i ddangos cyfeiriad teithio ar ddiwedd y flwyddyn. Byddai hyn yn galluogi'r Aelodau i fesur yn gyflym a oedd camau unioni arfaethedig wedi'u cymryd yn ystod y flwyddyn i ddatblygu'r camau hyn. Roedd y dull hwn o adrodd eithriadau yn adlewyrchu'r newidiadau y gofynnwyd amdanynt gan yr Aelodau Etholedig i waith monitro perfformiad y Cynllun Cyflawni Blynyddol.

Roedd yr adroddiad yn gofyn i Aelodau Etholedig ystyried canlyniadau perfformiad Ch4 a'r camau adferol arfaethedig i fynd i'r afael â meysydd tanberfformio a nodwyd. Ar ôl ei ystyried, argymhellwyd y dylai'r Pwyllgor Craffu gyfeirio ei farn ac unrhyw argymhellion i'r Cabinet i'w hystyried.

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, mewn ymateb i ymholiadau gan yr Is-gadeirydd, dywedodd y Pennaeth Safonau a Darpariaeth y canlynol:

- Roedd Derw Newydd yn ddarpariaeth a oedd wedi disodli'r Uned Cyfeirio Disgyblion blaenorol (UCD) gyda symudiad i ffwrdd o ganfyddiadau negyddol o ymddygiad gwael disgyblion a thuag at anghenion a lles disgyblion, a dull therapiwtig o gefnogi disgyblion.
- Roedd presenoldeb yn yr ysgol yn fater pwysig i'r Pwyllgor ganolbwyntio arno a byddai adroddiad ar y mater yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Medi/Hydref 2023.
- Roedd llawer iawn o waith o ran gwella presenoldeb ysgolion yn cael ei wneud gan ysgolion, gyda chefnogaeth Tîm Cynhwysiant y Cyngor.
- Roedd y rhesymau dros bresenoldeb gwael yn Ysgol Uwchradd Pencoedtre, fel ysgol Bro Morgannwg sy'n wynebu'r heriau mwyaf, yn cael eu hystyried, gan gynnwys y rhai ynghylch ansawdd y gwersi a addysgwyd.
- Roedd lefel o ofn ar ôl Covid o fod allan yn y gymuned ymhlith preswylwyr yn ogystal â chynnydd mewn teuluoedd sy'n cymryd gwyliau yn ystod y tymor, hefyd wedi cael effaith ar bresenoldeb ysgol.
- Yn wahanol i Awdurdodau Lleol eraill fel Caerdydd, roedd y Cyngor yn darparu trafndiaeth ysgol i blant mewn darpariaethau arbenigol a oedd yn byw o fewn tair milltir i'r ysgol, a llawer ohonynt ddim yn mynd i'r ysgol heb y gwasanaeth

trafnidiaeth.

Mewn ymateb i sylw gan y Cynghorydd Lynch-Wilson, dywedodd y Pennaeth Safonau a Darpariaeth fod presenoldeb yn gyffredinol yn is mewn ysgolion uwchradd nag mewn ysgolion cynradd, ac y gallai disgyblion oed uwchradd sydd angen llai o drafnidiaeth i'r ysgol gan eu rhieni gyfrannu at hyn. Yn dilyn hynny, tynnodd y Cynghorydd Hodges sylw at y Gofodau Gwneud mewn llyfrgelloedd, a holodd a oedd y Gofod Gwneud yn Llyfrgell y Barri bellach yn weithredol.

Heb unrhyw sylwadau nac ymholiadau pellach, y Pwyllgor wedyn

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI canlyniadau perfformiad Chwarter 4 a'r cynnydd tuag at gyflawni ymrwymadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2022/23, sy'n cyd-fynd ag Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol y Cyngor o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

(2) Y DYLID nodi'r camau adferol sydd i'w cymryd i fynd i'r afael â meysydd o danberfformio ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor, a chyfeirio'r sylwadau canlynol at y Cabinet i'w hystyried:

- Gan fod presenoldeb yn yr ysgol yn fater mor bwysig, gellid ystyried manylion pellach ynghylch y rhesymau pam y mae presenoldeb gwael wedi'i gofnodi, yn enwedig mewn perthynas ag ysgolion uwchradd, cyn i adroddiad ar bresenoldeb ysgol gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Medi/Hydref 2023.
- Bod mwy o eglurder yn cael ei ddarparu mewn perthynas â Gweithredu Cynllun Gwasanaeth SL/A018, gan gyfeirio'n benodol at Lyfrgell y Barri ac a yw cwblhau yn cyfeirio at gynllunio wedi'i gwblhau neu weithredu'r gofod gwneuthurwr.

Rheswm dros yr argymhellion

(1&2) Ystyried cynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod a sicrhau bod barn y Pwyllgor yn cael ei hystyried gan y Cabinet.